



Gorffennol Digidol Digital Past - 2020

TREFTADAETH DDISYLLW?

Dyfodol digidol ar gyfer gorffennol cuddiedig, safbwynt rhai pobl ifanc ym Mhowys

Penelope Foreman, Archaeolegydd Cymunedol, [Ymddiriedolaeth Archaeolegol Clwyd-Powys](#), a'r tîm Treftadaeth Ddisyllw?



Treftadaeth
Ddisyllw?
Unloved
Heritage?

Prosiect Cymru-eang wedi'i arwain gan bobl ifanc a'i ariannu gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol yw [Treftadaeth Ddisyllw?](#). Amcan y prosiect yw tynnu sylw at elfennau o dreftadaeth Cymru sydd wedi'u hesgeuluso a'u hanwybyddu.

[Gorffennol Digidol 2020](#): Technolegau newydd ym meysydd treftadaeth, dehongli ac estyn-allan
12 & 13 o Chwefror 2020, Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth, Aberystwyth

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn y Saesneg | This document is also available in English.

Mae dehongli treftadaeth yn cael ei gymryd allan o ddwylo'r lleisiau a ffynonellau traddodiadol a'i roi yng ngofal pobl ifanc.

Yma yng Nghlwyd-Powys, o dan y topig cyffredinol "Cymru wledig ar ôl y peiriant tanio", gwahoddir grwpiau i archwilio'r themâu, cynllunio eu prosiectau, rheoli eu cyllid, nodi eu hanghenion hyfforddi, ystyried eu creadigrwydd, a chyflawni eu gweledigaeth. Mae'n ymwneud â datblygu syniadau a gweithgareddau perthnasol a diddorol am dreftadaeth, hanes, archaeoleg a chelf. Mae'n ymwneud â meithrin angerdd a hyder a hunaniaeth, ac yn anad dim â dangos i bobl ifanc fod eu cyfraniadau a'u mewnwleidiadau'n ddilys a gwerthfawr ac yn angenrheidiol ar gyfer dyfodol y gorffennol.

Un o elfennau hanfodol y prosiect yw cynhyrchu cofnodion o'r dreftadaeth dan sylw sy'n cael eu harchifo'n ddigidol – ar gyfer ystorfeydd traddodiadol fel y CAH (HER) a safleoedd mwy cyhoeddus fel Casgliad y Werin. Pa mor berthnasol yw'r dulliau digidol hyn i'r bobl ifanc y dyfeisiwyd y prosiect ar eu cyfer ac sy'n ei redeg? O ystyried bod gwaddol prosiectau ar-lein neu ddigidol yn aml yn wan, a fawr neb yn ei gyrchu, beth yw gwerth canolbwyntio ar ddulliau digidol o gyhoeddi canlyniadau a chofnodi gwaddol prosiectau i bobl ifanc?

Lluniwyd y papur hwn gan y bobl ifanc sy'n rhan o ymwneud Ymddiriedolaeth Archaeolegol Clwyd-Powys â'r prosiect Treftadaeth Ddisylw, ac fe'i cyflwynir yn rhannol ganddynt hwy.

Biography

Archaeolegydd cymunedol sy'n gweithio yn y Trallwng, Powys yw Penelope. Ei meysydd arbenigol yw gweithio gyda phobl ifanc, datblygu ymarfer cynhwysol ar gyfer cymunedau amrywiol yng Nghymru, a datblygu prosiectau a mentrau a arweinir gan y gymuned. Mae hi'n athrawes gymwysedig, mae ganddi PhD mewn archaeoleg Neolithig, ac mae hi wedi gweithio ar sawl prosiect ymgysylltu â threftadaeth yng Nghymru a Lloegr.

Mae ganddi ymagwedd gyfannol, wedi'i gwreiddio mewn archaeoleg fel arfer proffesiynol ac yn y potensial ar gyfer hybu lles drwy waith maes ac agweddau creadigol at y ddisgyblaeth. Archaeoleg a threftadaeth wedi'u cyfuno â chelf, cerddoriaeth, cymuned, crefft, addysg, chwarae, a pherfformio.